



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

## Ymateb Cymorth i Ferched Cymru: Cais am wybodaeth – Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Enw:	Jennifer Mills, Swyddog Polisi
Sefydliad:	Cymorth i Ferched Cymru
Cyfeiriad E-bost:	jenmills@welshwomensaid.org.uk
Rhif Ffôn:	02920 541551
Cyfeiriad:	Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE
Dyma farn:	Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i roi diwedd ar gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.

### Yngylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ambarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol trydydd sector yng Nghymru (gan gynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau Fforymau Darparwyr Gwasanaethau VAWDASV Arbenigol rhanbarthol). Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywyd ynghyd â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hynny fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Fel sefydliad ambarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol, a phob math o drais yn erbyn menywod, a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini yn wasanaethau sydd wedi'u harwain gan anghenion, sy'n ymateb i rywedd ac sy'n holistaidd. Rydym yn cydweithio'n genedlaethol er mwyn integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; rydym yn darparu cyngor, gwasanaeth ymgynghori, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat, a thrydydd sector, ac mewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS yma: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>

### Cyflwyniad

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551  
[info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r cais hwn am wybodaeth.

Ar adeg cyflwyno'r ymateb hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad, Storm Berffaith<sup>1</sup>, lle tynnwyd sylw gennym at faint yr argyfwng sy'n wynebu gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ar draws Cymru. Yn yr adroddiad, tynnwyd sylw at effeithiau niferus parhaus gwasanaethau sydd wedi'u tan-gyllido a'u hariannu'n ansicr, a'n gobaiith yw y byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu model cyllido cynaliadwy a Chyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau
- Effaith barhaus COVID-19 yn cyd-fynd â diwedd cyllid brys tymor byr a roddwyd ar ddechrau'r pandemig
- Mwy na degawd o gynt, sydd wedi arwain at wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u torri ac at wasanaethau arbenigol yn gorfod codi'r darnau
- Yr argyfwng costau byw a'r cynnydd cysylltiedig, yn enwedig mewn costau ynni
- Cylchoedd cyllido tymor byr
- Problemau parhaus ar draws y sector o ran recriwtio a chadw staff
- Anghyrtaledd cyflog rhwng rolau statudol ac anstatudol cyfatebol

Er ein bod yn cydnabod ymrwymadau blaenorol i gyllid cynaliadwy a'r ffrwd waith comisiynu gynaliadwy a sefydlwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol fel rhan o'r strategaeth VAWDASV newydd, ni ellir aros mwyach i weithredu'r ymrwymadau hyn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i gyflymu'r broses o weithredu'r gwaith hwn, ac i ymrwymo'n glir i gylchoedd cyllido hirdymor o fewn y gyllideb hon, nid yn unig er mwyn nodi bylchau a dyblygu ond hefyd i sicrhau hirhoedledd gwasanaethau craidd ar gyfer goroeswyr VAWDASV yng Nghymru.

### **1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2022-23 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig ag adfer o'r pandemig? A yw polisïau cefnogi busnesau Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol wrth i'r rhagolygon economaidd ar gyfer 2023-24 barhau i waethygu?**

Rydym yn croeswau'r canlynol o fewn cyllideb 2022-23:

- £10 miliwn ychwanegol i gefnogi pobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau digartrefedd
- O ystyried effaith barhaus yr argyfwng costau byw ar oroeswyr VAWDASV, rydym yn croesawu'n arbennig y £180 miliwn ychwanegol, y tu allan i'r trefniadau wrth gefn arferol, i ariannu mesurau ychwanegol i ymateb i'r argyfwng costau byw
- Yr ymrwymiad diweddar o £957 mil i ddatblygu Glasbrint VAWDASV

<sup>1</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Perfect-Storm-Report-ENG-compressed.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

- £93 mil ychwanegol i ehangu ymrwymadau hyfforddi o dan y cynllun Gofyn a Gweithredu

Fodd bynnag, rydym yn siomedig nad oedd y Strategaeth VAWDASV, a ryddhawyd yn 2022, wedi'i ategu gan ymrwymiad digonol i fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol. Fel y soniwyd uchod, rydym yn croesawu sefydlu ffrwd waith comisiynu gynaliadwy gan y Bwrdd Partneriaeth Genedlaethol newydd, ond credwn fod cynnydd yn y maes hwn yn llawer rhy araf ac, er bod croeso i'r arian ychwanegol, heb drosolwg strategol a chydweithio gwell gyda gwasanaethau arbenigol, bydd cymorth i oroeswyr yn parhau i fod yn dameidiog.

Mae'n rhaid cydnabod bod grant VAWDASV Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyfran fach o'r cyllid cyffredinol sydd ei angen ar sefydliadau arbenigol i ddarparu eu gwasanaethau sy'n achub ac yn newid bywydau. Mae gwasanaethau arbenigol yn cyflenwi swm sylweddol o'u cyllid drwy brosesau tendro cystadleuol a llafurus am gronfeydd arian tymor byr gan awdurdodau cyhoeddus eraill (megis y Swyddfa Gartref a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd) a chyrrff elusennol. Dylid nodi bod y prosesau tendro hyn yn feichus, gan gymryd llawer o'r amser sydd ei angen ar wasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth uniongyrchol i oroeswyr, ac yn ei gwneud hi'n anos i sefydliadau 'gan ac ar gyfer' llai a mwy arbenigol gystadlu am gyllid. O ganlyniad, byddai cyllid canolog mwy dibynadwy yn caniatáu i'n haelod-wasanaethau ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn sicrhau cysondeb yn y cymorth i bawb sydd wedi goroesi VAWDASV ledled Cymru.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn hanfodol i sicrhau y caiff cymorth mewn llety, megis gwasanaethau lloches, ei ddarparu. Croesawn y cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sydd wedi profi, neu sydd mewn perygl o brofi, digartrefedd. Fodd bynnag, mae diffyg tai neu lety addas yn parhau i fod yn un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin sy'n atal goroeswyr rhag cael mynediad at gymorth, ac mae angen clir i sicrhau y caiff awdurdodau lleol hefyd eu cyllido'n ddigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan ddyletswyddau Digartrefedd ac i sicrhau y caiff y gwasanaethau sy'n darparu'r llety critigol hwn yr adnoddau digonol i allu darparu cymorth yn uniongyrchol lle bynnag y bo'i angen.

Dylid nodi ein bod, drwy gydol y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi parhau i weld cynnydd yn nifer a chymhlethdod goroeswyr sydd angen cymorth uniongyrchol gan wasanaethau. Yn y flwyddyn ariannol 2021-22, gwelodd aelod-sefydliadau a llinell gymorth Byw Heb Ofn y canlynol:

- Nid oedd modd cynnig cymorth i 42% o oroeswyr a atgyfeiriwyd i lochesi, ac nid oedd modd cefnogi'r mwyafrif o'r rheini (22%) oherwydd diffyg lle mewn lloches
- Cynnydd o 61% yn nifer y goroeswyr sy'n cael mynediad i wasanaethau trais rhywiol arbenigol
- Cynnydd o 18% yn nifer y cysylltiadau â llinell gymorth Byw Heb Ofn
- Cynnydd o 71% yn nifer y goroeswyr a adroddodd am yr hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd
- Cynnydd o 143% yn nifer y goroeswyr a adroddodd am fasnachu/caethwasiaeth pobl, a chynnydd o 88% yn nifer y goroeswyr a adroddodd am briodas dan orfod

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551

[info@welshomensaid.org.uk](mailto:info@welshomensaid.org.uk) | [www.welshomensaid.org.uk](http://www.welshomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Os gorfodir darparwyr lloches yng Nghymru i droi unrhyw orosywyr ymaith oherwydd diffyg lle ac adnoddau, mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau cyllid addas cynaliadawy yn yr hirdymor.

## **2. Sut y dylai/gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnes yn dilyn y pandemig, Brexit, chwyddiant a phwysau economaidd eraill?**

Taflodd pandemig COVID-19 oleuni ar y bylchau presennol mewn polisi, cynllunio a darpariaeth sy'n ymwneud â VAWDASV. Roedd llawer o'r materion hyn yn amlwg cyn y pandemig, ond pan ddatganwyd 'pandemig cysgodol' gan y Cenhedloedd Unedig<sup>2</sup> yng ngoleuni'r cynnydd byd-eang mewn VAWDASV a ddilynodd cyfyngiadau'r pandemig, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn unol â hynny. Yn ôl data gan ein haelod-sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector VAWDASV arbenigol ar draws Cymru, yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2021-22, cafodd 59% fynediad at gyllid penodol COVID-19 ond gostyngodd hyn i 33% erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser, yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'r galw ar wasanaethau wedi lleihau. Gwelsom 35,536 o gysylltiadau â llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, a oedd yn gynydd o 18% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, pan ddechreuodd pandemig COVID-19. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos, er bod croeso i'r addasiadau tymor byr gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni'r pandemig, daethant i ben yn llawer rhy fuan, ac mae'r pwysau ar wasanaethau yn parhau ar eu lefel uchaf erioed.

Mae'n bwysig edrych ar y cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau mewn cyd-destun ehangach. Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad, Storm Berffaith<sup>3</sup>, digwyddodd y trafferthion hyn yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn cyllid o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ochr yn ochr â blynyddoedd lawer o gyni. Mae'r materion mwy hirdymor hyn, ynghyd ag argyfyngau mwy diweddar megis chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw, wedi arwain at ansicrwydd ariannol i wasanaethau arbenigol. Pe bai digwyddiad arall na welwyd ei debyg o'r blaen, megis pandemig COVID-19, yn digwydd, mae'n bosibl y collir gwasanaethau arbenigol i orosywyr VAWDASV ledled Cymru yn llwyr.

Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i gynnig arweiniad i gyrrff cyhoeddus megis awdurdodau a byrddau iechyd lleol i sicrhau y caiff gwasanaethau VAWDASV eu darparu ar draws yr holl ranbarthau, gan sicrhau y cedwir at ganllawiau comisiynu VAWDASV statudol ar draws yr holl ffrydiau ariannu datganoledig ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol. Yn benodol, dylai gwasanaethau arbenigol barhau i fod yn annibynnol ac wedi'u hariannu'n llawn, ac ni ddylid eu cymryd yn fewnol heb ymgynghori â goroewyr ac yn groes i gyngor arbenigol.

<sup>2</sup> <https://www.unwomen.org/en/news/stories/2020/4/statement-ed-phumzile-violence-against-women-during-pandemic>

<sup>3</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Perfect-Storm-Report-ENG-compressed.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • eboost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

**3. Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24, a sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion arfaethedig, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod?**

Fel y soniwyd eisoes, mae Cymorth i Ferched Cymru yn cynrychioli amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau arbenigol ledled Cymru. Problem barhaus i wasanaethau arbenigol yn y sector VAWDASV a thu hwnt yw cylchoedd ariannu byr, blwyddyn o hyd. Rydym wedi tynnu sylw mewn sawl cais cyllidebol blaenorol am dystiolaeth at y ffaith bod y sector VAWDASV yn parhau i wynebu ansicrwydd oherwydd diffyg cyllid diogel a chynaliadwy, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau. Yn benodol, mae gwasanaethau llai, mwy arbenigol, megis gwasanaethau trais rhywiol, gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod Duon a lleiafrifoedd ethnig, a gwasanaethau sy'n cefnogi menywod ag anghenion lluosog, yn parhau i fod fwyaf mewn perygl.

Nid oes fawr o newid ers ein hadroddiad mwyaf diweddar ar gyflwr y sector, ac nid yw ein hargymhellion clir ar gyfer model ariannu cynaliadwy ar gyfer y sector- a amlygwyd yn gyson gennym fel rhai critigol yn ein 6 adroddiad diwethaf ar gyflwr y sector- ar gael hyd yma. Dylai cyllid cynaliadwy olygu cyllid tymor hwy (cylchoedd cyllido pum mlynedd o leiaf), ymrwymiad cyllidebol trawsygyfarwyddiaeth ac arferion comisiynu cydweithredol o safon uchel. Yn ychwanegol at hyn, tynnwyd sylw gennym at y loteri cod post sy'n bodoli ledled Cymru ar gyfer sawl math o wasanaeth. Er enghraifft, nododd ein hadroddiad, Dyletswydd i Gefnogi<sup>4</sup>, a gomisiynwyd gan Joyce Watson AS, loteri cod post ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc ledled Cymru, sy'n arwain at rai plant yn adrodd am effaith sylweddol ar eu gallu i adfer o gam-drin.

At hyn, ychydig iawn o ymrywmiaid a ddangoswyd hyd yma gan feysydd allweddol llywodraeth ddatganoledig, gan gynnwys economi, iechyd, cyflogadwyedd a thlodi, i fuddsoddi yn y gwaith o atal VAWDASV neu ymateb iddo. Mae rhai meysydd megis tai, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, plant a chymunedau, yn buddsoddi mewn ymatebion sy'n ymwennu â VAWDASV ond nid yw'r rhain wedi'u cydgyssylltu i ffurfio dull strategol o fynd i'r afael â VAWDASV, gan greu'r perygl o ddyblygu gwaith a gweithio ynysig sy'n arwain at ymatebion aneffeithiol i faint anghenion VAWDASV yng Nghymru.

Yn y pen draw, mae'r materion hyn yn arwain at osod gwasanaethau arbenigol a'r sector yn ei gyfanrwydd, mewn sefyllfa ariannol hynod ansicr o flwyddyn i flwyddyn, ac nid yw'r flwyddyn ariannol hon yn eithriad, ac mae'n rhaid i'r gyllideb ymrwmo i waith cygysylltiedig i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.

**4. Gyda chwyddiant a phroblemau costau byw yn parhau i gynyddu, pa gamau y dylai**

**Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â'r argyfwng diweddar hwn?**

Er na ddylid tanbriso effeithiau economaidd yr argyfwng costau byw, ni ddylid tanbriso effaith VAWDASV ar oroeswyr ychwaith.

Mae cam-drin ariannol a/neu economaidd wedi bod ar gynydd ers blynyddoedd lawer, a bydd wedi'i ddwysáu gan y cythrwfl economaidd diweddar yn y DU. Mae data gan ein haelod-wasanaethau arbenigol yn dangos bod

<sup>4</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/news/18049/>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551  
[info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • eboost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

gwasanaethau lloches yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 48% yn nifer y goroeswyr a adroddodd am gam-drin ariannol neu economaidd rhwng chwarter 4 y llynedd a chwarter 1 eleni. At hyn, mewn adroddiad diweddar<sup>5</sup>, canfu Women's Aid Federation England (WAFE) fod bron pob goroeswr (96%) a holwyd wedi gweld effaith negyddol ar faint o arian a oedd ar gael iddynt o ganlyniad i gynnydd mewn costau byw, a bod dwy ran o dair o oroeswyr (66%) wedi dweud bod camdrinwyr yn defnyddio'r cynnydd mewn costau byw a'r gofidiau ynghylch caledi ariannol fel arf i reoli drwy orfodaeth, gan gynnwys cyfiawnhau cyfyngu ymhellach ar eu mynediad at arian. Yn ogystal, nododd bron i dri chwarter o fenywod (73%) sy'n byw gyda'u camdriniwr a/neu sydd â chyswllt ariannol â'u camdriniwr fod yr argyfwng costau byw naill ai wedi eu hatal rhag ymadael â pherthynas gamdriniol neu ei fod yn ei wneud yn anos iddynt ymadael. Yn ôl tystiolaeth bellach<sup>6</sup> gan WAFE, mae caledi ariannol yn parhau i fod yn rhwystr wrth geisio lle mewn lloches. Yn wir, mae ymchwil<sup>7</sup> wedi dangos fod llawer o fenywod naill ai'n sofffa-syrffio neu'n treulio amser mewn rhyw fath o lety brys neu wely a brechwast wrth aros am le mewn lloches, a bod nifer fach ond amlwg o fenywod yn cysgu allan gan gynnwys defnyddio adeiladau 24 awr neu gysgu yn eu ceir. Mae hyn arwain at osod menywod yn agored i niwed ac mewn perygl. Yn eu hymchwil, canfu WAFE fod nifer o fenywod yn dibynnu ar rwydweithiau cymorth anffurfiol megis ffrindiau a theulu pan fyddant yn wynebu caledi ariannol wrth ymadael â pherthynas gamdriniol. Ond nid oes gan lawer o fenywod rwydweithiau o'r fath, sy'n golygu eu bod naill ai'n gaeth mewn perthynas gamdriniol neu'n wynebu ansicrwydd ariannol difirfol.

Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn effeithio ar y sector yn ehangach. Mae llawer o'n haelod-sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau uniongyrchol megis llochesi, wedi gweld cynnydd eithafol yn eu costau rhedeg cyffredinol megis bwyd, dŵr, nwy a thrydan. Caiff hyn ei ddwysáu gan gyllido anhyblyg sy'n aml yn seiliedig ar gostau sydd wedi'u hôl-ddyddio o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dywedodd un aelod-wasanaeth wrthym<sup>8</sup> y byddai eu cyllid, er gwaethaf costau cynyddol, yn seiliedig ar gostau'r llynedd, gan adael diffyg o £5,000 ar gyfer eu prosiect cymorth cyfnewidiol a diffyg o £1,500 ar gyfer pob un o'u llochesi. Er bod rhai wedi gallu cael gafael ar gymorth tymor byr gyda'u biliau ynni, mae yna nifer sydd heb, ac nid oes unrhyw eglurder ynglŷn â pha gymorth a fydd ar gael ar ôl Ebrill 2023. Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu bod gwasanaethau VAWDASV mewn helynt economaidd, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi cefnogaeth ariannol ar unwaith i wasanaethau a gomisiynwyd yng nghanol cylch cyllido er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau'r cynnydd mewn costau byw ar eu gwasanaethau a'u galluogi i barhau â'r cymorth hanfodol a ddarperir ganddynt i oroeswyr VAWDASV.

I gloi, mae'n amlwg bod cam-drin ariannol, sydd wedi'i ddwysáu gan ansicrwydd economaidd, yn ysgogiad parhaus i drais yn erbyn menywod a merched, a phwyswn ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'u hadnoddau i fynd i'r afael â phroblemau chwyddiant a chostau byw parhaus, a hynny gyda lens ryweddol, gan sicrhau y cynhelir asesiadau effaith ac anghenion cydraddoldeb fel bo'n briodol a bod goroeswyr yn parhau i gael lle blaenllaw o ran polisi yn y maes hwn.

<sup>5</sup> <https://www.womensaid.org.uk/the-cost-of-living/>

<sup>6</sup> <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/Financial-Hardship-report-FINAL.pdf>

<sup>7</sup> <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/09/Nowhere-to-Turn-2021.pdf>

<sup>8</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Perfect-Storm-Report-ENG-compressed.pdf>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551

[info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

**5. Sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig a chefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?**

Mae'n bwysig cydnabod bod cost cael mynediad i wasanaethau yn uchel i oroeswyr VAWDASV mewn ardaloedd gwledig o Gymru. Er bod ein haelod-wasanaethau arbenigol yn cwmpasu Cymru gyfan, mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru mae gwasanaethau yn debygol o fod ymhellach oddi wrth oroeswyr, gan ei gwneud yn anos ac yn ddrtach iddynt gael mynediad iddynt, ac mae hyn yn ddios yn rhwystr i gymorth. Mae hwn yn fater arbennig o berthnasol i oroeswyr anabl a goroeswyr hŷn.

Rydym wedi amlygu<sup>9</sup> eisoes nad yw gwasanaethau wedi'u hariannu'n gyson ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru, a bod y diffyg strategaeth a chysondeb ar draws Cymru yn ei gwneud yn anodd iawn nodi bylchau yn y ddarpariaeth a gweithredu dull cymdeithas gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

Un o nodau craidd Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 oedd cyflwyno dyletswydd i weithredu strategaethau lleol i roi diwedd ar y loteri cod post ar gyfer gwasanaethau i oroeswyr ledled Cymru. Yn anffodus, 7 mlynedd wedi gweithredu'r ddeddf hon, mae hyn yn parhau i fod yn broblem i oroeswyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Yn y pen draw, credwn mai sicrhau cyllid clir yn y gyllideb ddrafft hon i warantu cydraddoldeb cymorth arbenigol ar draws Cymru yw'r unig ffordd o gyflawni Amcan 6 y strategaeth VAWDASV newydd, sy'n anelu at roi mynediad *cyfartal* i bob dioddefwr i wasanaethau ledled Cymru sy'n briodol o ran adnoddau, sydd o ansawdd uchel, sydd wedi'u harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n groestoriadol ac sy'n ymatebol.

**6. A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wryddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol? A ydych yn credu bod digon o fuddsoddi yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a byd natur? A oes yna unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?**

**7. A yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddynt mewn perthynas â benthyca a threthiant?**

N/A

**8. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol ar unrhyw un o'r meysydd a nodir isod?**

**9. Boliſïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhywiol. A oes digon o gymorth yn cael ei roi i'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?**

<sup>9</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/12/WWA-response-to-Welsh-Government-Budget-2022-23.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Fel yr amlygwyd gennym yn ein hymateb i gyllideb ddrafft 2022-23, mae pob math o VAWDASV wedi'i wreiddo mewn perthnasoedd anghyfartal rhwng y rhywiau mewn cymdeithas ac yn fynegiadau ohonynt. Mae'r rhain yn croestorri â mathau eraill o ormes megis rhywiaeth, abledd, hiliaeth, homoffobia a thrawsffobia ac mae ffactorau eraill megis oed, ethnigrwydd, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd yn golygu bod y menywod hyn yn profi VAWDASV mewn ffyrdd gwahanol a mwy difirol yn aml.

Mae effaith pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw parhaus yn cael ei deimlo'n anghymesur gan fenywod. Mewn dadansoddiad o effaith ryweddol yr argyfwng costau byw<sup>10</sup>, nododd Grŵp Cyllideb Menywod y bydd cynnydd mewn costau byw yn taro'r tlotaf galetaf, ac o ystyried bod gan fenywod lefelau is o gynilion a chyfoeth, ynghyd â llai o gapasiti i gynyddu eu horiau o waith cyflogedig oherwydd ffactoru eraill megis cyfrifoldebau gofalu, bydd effeithiau'r argyfwng costau byw yn effeithio ar fenywod yn fwy dwys. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar drais yn erbyn menywod hefyd. Fel yr amlinellir uchod, mae sawl math o VAWDASV, gan gynnwys cam-drin ariannol ac economaidd, wedi cynyddu ers i'r ansicrwydd yng nghyllid cyhoeddus y DU ddod i'r amlwg, a chredwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith anghymesur ar oroeswyr, llawer ohonynt yn fenywod, a dyrannu adnoddau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb incwm yn unol â hynny.

Gwerthfawrogwn y ffaith fod rhannau o'r strategaeth VAWDASV am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol drwy lens groestoriadol, ond credwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gollu rhannau mawr o anghydraddoldebau strwythurol, sy'n cyfrannu at drais yn erbyn menywod a merched. Mae llawer o rwystaru systemig yn wynebu menywod Duon a lleiafrifol, menywod mudol, menywod byddar ac anabl, menywod LGBT+, a menywod sy'n wynebu anfanteision lluosog, pan ddaw at gael mynediad at adnoddau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ac incwm, megis mynediad i wasanaethau tai a chymorth. Mae angen datgymalu'r rhain yn systematig drwy adnoddau cywir, cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol penodedig.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori cyllidebu ar sail rhyw ar draws y gwaith drwy'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn cydnabod gwaith Y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ac, yn unol â hynny, y cynllun treialu cyllidebu ar sail rhyw, Cyfrifon Dysgu Personol, sydd ar fin cael ei werthuso. Fodd bynnag, credwn fod cynnydd yn y maes gwaith hwn yn rhy araf. Mae'n hanfodol bod y gyllideb hon yn galluogi mynediad cyfartal at gymorth drwy roi adnoddau effeithiol i wasanaethau, gan gydnabod nad yw'r gwasanaethau y mae eu hangen ar fenywod sy'n oroeswyr VAWDASV, yn enwedig y rheini ag anghenion cymorth croestoriadol, yn homogenaidd ac y dylid eu hariannu yn unol â hynny.

At hyn, credwn fod yn rhaid i gyllideb ddrafft 2023-24 ystyried gallu gwasanaethau ac adrannau i wireddu'r addewidion yn y strategaeth VAWDASV newydd, gan gynnwys datblygu system o gomisiynu cynaliadwy, cynllunio strategol effeithiol, datblygu fframwaith safonau cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol, a chynnwys lleisiau goroeswyr ar draws ystod lawn y fframwaith Glasbrint. Mae'n rhaid rhoi adnoddau digonol i'r rhain a'u datblygu'n gyfochrog â pholisi megis Cynllun Gweithredu LGBTQ+ Cymru,

<sup>10</sup> <https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf>







Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Y Strategaeth ar gyfer Atal a Dod â Digartrefedd i ben, y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol, y Cynllun Gweithredu ar Anabledd, a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Dylai'r strategaethau hyn fod yn gefnogol i'w gilydd, dylent lywio datblygu'r gyllideb hon, a dylent gydweithio i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais ac anghydraddoldeb. Mae'n rhaid i waith trawslywodraethol hwyluso gwaith cydgysylltiedig ar draws meysydd strategol i gysoni gwaith cydraddoldeb a gwaith VAWDASV.

## **10** **Sut y mae/a yw'r dull gweithredu ar wariant ataliol yn cael ei gynrychioli mewn dyraniadau adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lleddfu'r galw yn y dyfodol ar wasanaethau drwy ymyrryd yn gynnar).**

Ers blynnyddoedd, mae arbenigwyr wedi bod yn cyfeirio at drais yn erbyn menywod fel 'problem iechyd cyhoeddus fawr ac yn gam yn erbyn hawliau dynol menywod'<sup>11</sup>. Mae hyn yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod yn croestorri â sawl maes polisi a llywodraeth gan gynnwys iechyd, tai, cymunedau, cyfiawnder ac addysg. At hyn, mae adroddiadau gan Women's Resource Centre<sup>12</sup> yn dangos bod y sector menywod yn arbed, ar gyfartaledd, £500 miliwn bob blwyddyn i'r GIG ac o'r herwydd dylai buddsoddi mewn gwasanaethau menywod a dilyn dull iechyd cyhoeddus o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched fod yn flaenoriaeth ddiamod i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y strategaeth VAWDASV newydd fod egwyddorion dull iechyd cyhoeddus yn cynnig fframwaith defnyddiol i ddeall achosion a chanlyniadau trais, cam-drin a rheolaeth. Cytunwn â Llywodraeth Cymru bod angen ymdrech gydgysylltiedig, gan gydnabod achosion problemau iechyd a chymdeithasol drwy ymatebion amlasiantaeth. Rydym hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth fod gweithio ar draws yr holl feysydd gwaith hyn i weithredu dulliau atal yn y sectorau cynradd, uwchradd a thrydyddol yn allweddol er mwyn gweithredu dull iechyd cyhoeddus a'r addewid i gysoni strategaeth VAWDASV â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r ymrwymiad i'r saith nod llesiant sy'n berthnasol i atal VAWDASV. Credwn fod yn rhaid i'r gyllideb ddrafft gynnwys ymrwymadau cadarn i sicrhau y caiff cyrff cyhoeddus a thrydydd sector eu hariannu'n ddigonol i'w galluogi i gymryd camau i gyflawni'r nodau hyn.

Mae'n bwysig nodi bod diffyg cydnabyddiaeth o sawl math o VAWDASV, a diffyg adrodd amdanynt, yn parhau, megis aflonyddu rhywiol cyhoeddus, camfanteisio rhywiol a VAWDASV yn erbyn pobl hŷn. Er ein bod yn cydnabod bod codi ymwybyddiaeth wedi'i amlygu yn y strategaeth VAWDASV newydd, a'r ymdrechion blaenorol gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag ymgyrchoedd cyhoeddus i dynnu sylw at y rhain, megis ymgyrch gendlaethol 2019 i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl hŷn o'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

<sup>11</sup> <https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/violence-against-women>

<sup>12</sup> <https://www.wrc.org.uk/blogs/blogs/the-womens-sector-700-million-out-of-pocket-heres-why-and-what-we-can-do-about-it>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

(Cymru) 2014<sup>13</sup>, nid ydym yn credu i'r rhain fod yn ddigon pellgyrhaeddol a chredwn fod nifer wedi bod yn rhy fyrhoedlog. O'r herwydd, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys arian penodol i dynnu sylw at ba mor gyffredin yw pob math o VAWDASV er mwyn adlewyrchu'r nod o ddilyn dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â'r mater.

**☑ Sut y dylid blaenoriaethu adnoddau i fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau sydd wedi'u cynllunio a rhai nad ydynt yn rhai brys. A ydych yn credu bod gan Llywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?**

N/A

**☑ Cynaliadwyedd y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn fwy cyffredinol. A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth digonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol a blaengar drwy bethau megis cynllunio'r gweithle?**

Rydym am dynnu sylw at y gwahaniaethau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i wasanaethau statudol ac anstatudol. Yn ein hymateb i gais y llynedd am dystiolaeth, tynnwyd sylw gennym at fater cadw staff gwasanaethau arbenigol yn y trydydd sector ac at wahaniaethau mewn tâl. Yn ein hadroddiad ar Gyflwr y Sector yn 2021, fe ddangoswyd gennym y gall gwasanaethau arbenigol gynnig tua £20,541 ar gyfer rôl gweithiwr cymorth tra y gall cyrff statudol gynnig tua £24,000-£26,000 ar gyfer rolau tebyg. Hyd yn oed ar gyfer rôl gyfatebol, mae gwasanaethau arbenigol yn derbyn cyllid sylweddol is i dalu cyflogau staff. Er enghraifft, mae ymgynghorydd trais rhywiol annibynnol (ISVA) mewn canolfan argyfwng treisio yng Nghymru yn derbyn cyflog oddeutu £27,444, ond mewn canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARC) sy'n cael eu rhedeg gan y sector statudol, mae cyflogau oddeutu £35,000 o fewn yr un ardal.

Mae'r anghyfarfaledd hwn yn arbennig o glir mewn rolau arbenigol ym maes plant a phobl ifanc, lle mae rôl gyffredin mewn awdurdod lleol sy'n gweithio gyda phlant yn talu 9.1% yn fwy na'r trydydd sector arbenigol. O ystyried cyfyngiadau'r gyllideb dynn y mae gwasanaethau arbenigol yn gweithio oddi tanynt oherwydd cyllido annigonol, mae ganddynt lai o hyblygrwydd i sicrhau bod cyflogau'n cyfateb ac, o ganlyniad, maen nhw'n profi cyfradd eithafol o staff yn gadael i rolau'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, mae toriadau llywodraeth leol yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau arbenigol. Mae ymchwil<sup>14</sup> gan The New Policy Institute ochr yn ochr â sefydliad banc Lloyds yn dangos bod y galw cynyddol a'r ffaith bod adnoddau'n crebachu mewn gwasanaethau cynghorau yn aml yn arwain at elusennau lleol yn gorfod codi'r darnau. Gyda'i gilydd, mae'r rhain y tanlinellu'r angen nid yn unig i gyrff y sector cyhoeddus gael eu hariannu'n ddigonol ac yn gynaliadwy, ond hefyd i wasanaethau'r trydydd sector gael blaenoriaeth gydradd o ran cyllid, a hynny er mwyn caniatáu iddynt ddarparu'r gwasanaethau craidd pan na all cyrff y sector cyhoeddus wneud hynny.

<sup>13</sup> <https://gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society-html>

<sup>14</sup> <https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/media/fdwfpto/a-quiet-crisis-summary.pdf>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551

[info@welshomensaid.org.uk](mailto:info@welshomensaid.org.uk) | [www.welshomensaid.org.uk](http://www.welshomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Ar wahân i'r uchod, rydym am dynnu sylw yn y cwestiwn hwn at ein pryderon ynghylch y ffocws ar gymorth arloesol, ochr yn ochr â'r angen i gynnal cyllid cyson ar gyfer gwasanaethau craidd ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ill dau. Yn gynyddol, mae'n ofynnol i wasanaethau arbenigol wneud ceisiadau tendro cystadleuol am gyllid i ddarparu rhaglenni ac ymyriadau newydd, ac er ein bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd rhaglenni cymorth amrywiol a threialu dulliau newydd, dylai hyn ddigwydd yn ychwanegol at gyllid ar gyfer gwasanaethau craidd profedig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddarparwyr dibynadwy, yn hytrach na chymryd lle'r cyllid hwnnw.

**☑ A fu buddsoddiad digonol gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus.**

N/A

**☑ Cymorth i blant a phobl ifanc y mae eu haddysg, datblygiad, iechyd meddwl a lles wedi'u heffeithio gan y pandemig. A oes digon o fuddsoddi mewn seilwaith sydd wedi'i anelu at bobl ifanc?**

Yn ein hymatebion blaenorol i'r ceisiadau hyn am dystiolaeth, rydym wedi tynnu sylw at y loteri cod post presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV ledled Cymru. Yn wir, yn ein hadroddiad diweddar, Dyletswydd i Gefnogi<sup>15</sup>, gwelsom, er bod tua 1 o bob 5 plentyn yng Nghymru yn profi cam-drin domestig, mai dim ond canran fach sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau VAWDASV arbenigol, ac mai dim ond tri o bob 20 awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i'n hadolygiadau rhyddid a oedd â phwyllgor craffu plant a phobl ifanc dynodedig i archwilio'r angen am gymorth arbenigol i'r garfan honno.

Mae llawer o'n haelod-wasanaethau yn cynnig cymorth ac ymyrraeth ragorol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o wasanaethau lloches gyllid penodedig ar gyfer gweithwyr plant a phobl ifanc, ac mae'r ddarpariaeth yn parhau i fod yn hynod gyfyngedig o'i chymharu â graddfa'r boblogaeth o ran maint ardal y gwasanaethau a pha mor gyffredin y mae'r VAWDASV y mae plant a phobl ifanc yn ei brofi ac yn dyst iddo. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r ymdrech a wnaed yn y strategaeth VAWDASV ddiweddar i gydnabod anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys sefydlu ffrwd waith plant a phobl ifanc o fewn dull Glasbrint VAWDASV, mae'n rhaid cael buddsoddiad strategol dynodedig mewn cymorth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc i gyd-fynd â hyn.

**☑ A yw'n glir sut mae tystiolaeth a data symbylu gwaith Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyraniadau'r gyllideb.**

<sup>15</sup> <https://welshomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/CYP-FOI-Report-ENG-WWA.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • eboost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Dymunwn godi pryderon ynghylch sawl math o VAWDASV sy'n parhau i fod heb dystiolaeth gadarn na data, yn arbennig data penodol i Gymru, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi er mwyn deall maint y rhain a dyrannu'r gyllideb yn unol â hynny. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, ddata sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc, yn ymwneud yn arbennig â thrais plentyn yn erbyn rhiant ifanc a thystiolaeth ansawdd uchel sy'n gosod lleisiau plant yng Nghymru, yn arbennig y rheini sydd â phrofiad o ofalu, yn ganolog
- Y rheini nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus
- Camfanteisio rhywiol oedolion
- Cymunedau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru
- Nodweddion gwarchoddedig, yn arbennig effaith VAWDASV a hygyrchedd gwasanaethau cymorth i bobl fyddar/anabl, pobl LGBTQ+ a'r rheini o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig
- Siaradwyr ieithoedd eraill, yn arbennig o ran y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal ymchwil o ansawdd uchel gyda chyfieithwyr a thystiolaeth nad yw llawer o'r eirfa sy'n ymwneud â VAWDASV naill ai'n cyfieithu'n uniongyrchol neu'n bodoli o gwbl mewn llawer o ieithoedd eraill

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth sydd yn y Cynllun Gweithredu Drafft Cenedlaethol i roi diwedd ar gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn fod diffyg tystiolaeth o hyd ynghylch cam-drin pobl hŷn yng Nghymru, ond rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i roi cyllid i ehangu'r sail tystiolaeth er mwyn sicrhau bod cymorth ac ymyriadau yn drylwyr, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac wedi'u hariannu yn ôl yr angen.

Yn ogystal, rydym am dynnu sylw at ein pwynt blaenorol ynghylch cyllidebu ar sail rhyw, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys ym mhob cyllideb o hyn ymalen asesiadau anghenion sy'n cwmpasu effaith dyraniadau cyllidebol ar wahanol grwpiau, gan gynnwys menywod.

### **☑ A yw'r gefnogaeth i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?**

Nac ydy yn bendant. Mewn adroddiad<sup>16</sup> a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Cymorth i Ferched Cymru, tynnwyd sylw gennym at storm berffaith o ffactorau sy'n arwain at osod gwasanaethau mewn ansicrwydd ariannol difrifol, gan gynnwys effaith barhaus pandemig COVID-19, nifer o flynyddoedd o gynydd, yr argyfwng costau byw, a ffactorau eraill mwy disylw megis cynnydd mewn costau cyfleustodau i wasanaethau lloches.

<sup>16</sup> <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Perfect-Storm-Report-ENG-compressed.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • epost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Er ein bod yn gwerthfawrogi na ellid rhagweld nifer o'r sefyllfaoedd unigol hyn, mae'n bwysig eu gosod yng nghyd-destun dros ddegawd o gyni, sydd wedi achosi toriadau i wasanaethau lleol ac wedi bod yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau arbenigol ers blynnyddoedd lawer. I'r perwyl hwn, credwn fod sefydliadau trydydd sector wedi'u tan-gyllido ers nifer o flynyddoedd, gan gynnwys cyn y pandemig, a bod yr argyfyngau cronol wedi dwysáu'r sefyllfa hon. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud cynllun mwy hirdymor i fynd i'r afael â'r argyfyngau croestoriadol sy'n wynebu sefydliadau ar draws y trydydd sector yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys sefydliadau trais yn erbyn menywod a merched.

Dylid nodi hefyd fod gwasanaethau arbenigol yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, ond bod mwyafrif o wasanaethau wedi gweld cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau er i'r arian ddod i ben. Mae hyn yn dangos bod gan Lywodraeth Cymru yr hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau yn y galw am wasanaethau a phwysau economaidd, ac y dylent ddatblygu modelau cyllido mwy hirdymor a mwy hyblyg er mwyn caniatáu i wasanaethau gael mynediad i gronfeydd o'r fath yn gyflym ac yn effeithlon.

**☑ Beth yw'r cyfleoedd allweddol i'r Llywodraeth fuddsoddi i gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu'n well i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)?**

Drwy gydol y pandemig, mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol wedi bod yn gwneud ymdrechion ar y cyd i barhau ac addasu i ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau cysondeb yn y cymorth i oroeswyr. Fodd bynnag, ni ddylid tanbriso'r effaith barhaus ar oroeswyr a staff yn y sector. Dylai cynaliadwyedd ac argaeledd darpariaeth i amddiffyn a chefnogi holl oreoswyr VAWDASV fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer ailgodi'n gryfach.

Yn ein hymateb i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23, fe wnaethom gynnwys nifer o alwadau i weithredu, ac mae nifer ohonynt yn parhau i fod yn berthnasol heddiw:

1. Ymrwymo i ailganoli VAWDASV fel blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ac ymwreiddio ymyrraeth, atal, a chymorth i oroeswyr ar draws pob cyfarwyddiaeth.
2. Sicrhau bod y cyllid ar gyfer y sector VAWDASV yn gynaliadwy ac yn cynnwys arian wedi'i neilltuo ar gyfer sefydliadau 'gan ac ar gyfer' arbenigol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gylchoedd cyllido hwy, 3-5 mlynedd o leiaf.
3. Ymrwymo i gyllid sydd wedi'i gysylltu â chwyddiant ar gyfer gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau y gellir cynnal amwynderau sylfaenol heb fod ar draul cymorth i oroeswyr VAWDASV.
4. Darparu contractau cyllido ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n eu galluogi i gynnig amodau cyflogaeth cydradd â'r rheini ar gyfer rolau statudol.
5. Ymrwymo i gronfeydd o fewn contractau ar gyfer gwasanaethau arbenigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiad a lles staff.
6. Cynllunio'n rhagweithiol i gynyddu gwasanaethau cymorth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551

[info@welshomensaid.org.uk](mailto:info@welshomensaid.org.uk) | [www.welshomensaid.org.uk](http://www.welshomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

ddigonol o fewn y sector VAWDASV, megis plant a phobl ifanc, pobl hŷn, a goroeswyr camfanteisio rhywiol.

7. Ymrwymo cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer ymyriadau aml-haen i ddrwgweithdredwyr. Ymrwymo i ddatrysiaid hirdymor i gefnogi goroeswyr sydd heb hawl i gael arian cyhoeddus, gan gynnwys creu cronfa y gall darparwyr yng Nghymru gael mynediad iddi yn niffyg popeth arall, fel yr awgrymwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol<sup>17</sup>.
8. Canolbwyntio ar ariannu gwasanaethau craidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ogystal â rhaglenni cymorth arloesol.
9. Blaenoriaethu cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal.
10. Sicrhau bod llwybrau atgyfeirio i wasanaethau arbenigol wedi'u paratoi ar gyfer cynnydd mewn datgeliadau gan blant a phobl ifanc mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i gwricwlwm newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei gyflwyno.
11. Sicrhau bod gweithwyr plant a phobl ifanc penodedig mewn gwasanaethau mewn llochesi a chymunedau ar gael i ddarparu gwasanaethau ymarferol a therapiwtig i blant a phobl ifanc i'w galluogi i adfer o'u profiadau, adnabod cam-drin a datblygu perthnasoedd iach yn y dyfodol.
12. Cynyddu argaeledd llety hyblyg amrywiol a chymorth i oroeswyr.
13. Datblygu system ariannu sy'n lleihau tendro cystadleuol ac sy'n canolbwyntio ar gydweithio.
14. Peidio â dychwelyd at ddiffygion achosion llys cyn-COVID.

Mae'r holl argymhellion uchod yn gofyn am fuddsoddiad cynaliadwy gan y gyllideb newydd a strwythurau goruchwylio clir i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn gydgyssylltiedig ac wedi'i weinyddu'n effeithiol i'r gwasanaethau arbenigol sy'n gwneud y gwaith ar lawr gwlad.

---

<sup>17</sup> <https://senedd.wales/senedd-now/news/migrant-women-subject-to-gender-based-violence-and-abuse-are-often-hidden-in-plain-sight-according-to-senedd-report/>

